CYTÛN: EGLWYSI YNGHYD YNG NGHYMRU - GWEITHGOR AR GYMRU AC EWROP

Adroddiad i'r Eglwysi a'r Enwadau

1 **Cyflwyniad:** Ar sail penderfyniad yng Nghyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn Llanuwchllyn a'r Bala ym mis Gorffennaf (ac a adleisiwyd mewn penderfyniadau tebyg gan Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru) ffurfiwyd Gweithgor (mewn cydweithrediad â Cytûn) yn ddiymdroi yn dilyn y refferendwm i gychwyn ar y gwaith o ystyried canlyniadau'r bleidlais i adael y Undeb Ewropeaidd. Y cwestiwn canolog fu'n wynebu'r Gweithgor yw: Pa fath ar gymdeithas y mae Cristnogion am ei gweld yng Nghymru ac ym Mhrydain yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd? Yn wyneb hyn, ei dasg bennaf yw cynorthwyo'r eglwysi i hyrwyddo'r dystiolaeth Gristnogol gyhoeddus drwy gyfranogi yn y broses o ddatblygu polisïau a strwythurau priodol yn dilyn gweithredu Erthygl 50 gan Lywodraeth y DG, drwy ystyried y polisïau ddylai gael blaenoriaeth yn y trefniadau newydd, rôl Senedd Llywodraeth Cymru yn y strwythurau gwleidyddol newydd a blaenoriaethau Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol wrth i'r trosglwyddo o Ewrop i'r DG ddigwydd ac ysgogi trafodaethau cenedlaethol a lleol i hybu dealltwriaeth ddyfnach o'r materion ddylai gael sylw'r eglwysi a chyrff eraill yn y gymuned yn ystod y cyfnod nesaf yng nghyd-destun y gwerthoedd Cristnogol a gredir sy'n hanfodol i ddyfodol Cymru a'r cenhedloedd hyn.

2 **Gweithgor Cytûn:** Bellach cytunodd Bwrdd Cytûn i gydnabod y Gweithgor fel Gweithgor Cytûn ar Gymru ac Ewrop ac felly mae'n gweithredu'n gydenwadol ac mewn cydweithrediad agos â mudiadau sy'n rhannu consyrn yr eglwysi am rai o'r tueddiadau sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd. Y mae'r Parchg Gethin Rhys, swyddog polisi Cytûn yn gweinyddu'r Gweithgor a'r Parchg Ddr Noel A Davies (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a chyn-Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn) yn ei gadeirio. Cyfarfu'r Gweithgor dair gwaith hyd yn hyn.

3 **Y Gwerthoedd Cristnogol:** Y mae'r datganiad canlynol yn crynhoi'r prif werthoedd Cristnogol y tybir ddylai fod yn sail i waith yr eglwysi yn y cyfnod nesaf:

Credir fod gwarchod statws a hawliau pobl fregus ac anabl, yr henoed a phlant, tawelu meddwl lleiafrifoedd ethnig yn ein plith sy'n teimlo'n ansicr neu'n ofnus am y dyfodol ac estyn croeso i'r dieithryn a'r anghenus o bob hil, cenedl a chrefydd yn

sylfaenol i ddyfodol Cymru fel gwlad sydd wedi'i hadeiladu ar seiliau Cristnogol.

Condemniwn yn llwyr pob math ar hiliaeth a rhagfarn. Yn yr un modd, mae sicrhau fod gan ieuenctid ar draws pob elfen o'r gymdeithas Gymreig gyfleoedd addysg a chyflogaeth priodol yn y cyfnod economaidd mwy ansicr sydd o'n blaen a hawliau'r unigolyn a'r gweithlu yn cael eu gwarchod yn hanfodol mewn cymdeithas wâr. Ynghlwm yn hyn, dylai gwarchod hawliau ieithoedd lleiafrifol fel y Gymraeg gael blaenoriaeth yng Nghymru'r dyfodol. Gyda golwg ar y byd tu hwnt i Gymru, bydd parhau â'r gwaith o warchod yr amgylchedd ac ymdrin â newid hinsawdd yng nghyd-destun heriol amaethyddiaeth yng Nghymru a bod yn gymdogion da i wledydd eraill ar draws y byd yn elfen greiddiol i gyfrifoldeb byd-eang Cymru wedi inni adael yr Undeb Ewropeaidd. Credir hefyd y bydd angen ystyried materion cymdeithasol a gwleidyddol sydd wedi eu datgelu yn y refferendwm ar yr Undeb Ewropeaidd, megis materion o gylch y gwahaniaethau rhwng gwahanol haenau cymdeithas a gwahanol ardaloedd yn ogystal ag agweddau ar y broses a'r diwylliant gwleidyddol, a sut i gynnwys y boblogaeth gyfan o fewn gwleidyddiaeth yng Nghymru a'r Deyrnas Gyfunol.

Gwahoddwyd nifer o arbenigwyr i lunio papurau byr ar y pynciau hyn i fod yn sail ar gyfer trafodaethau pellach ymhlith yr eglwysi. Yn ystod y misoedd nesaf paratoir dogfen ar sail y papurau hyn, a rennir gyda'r eglwysi a'r enwadau yn ogystal â chyrff Cristnogol a chyhoeddus eraill, fydd yn crynhoi'r prif bynciau dan sylw ac yn cynnig fframwaith ar gyfer gwaith yr eglwysi yn y meysydd hyn yn y cyfnod nesaf.

4 **Cyflwyniadau i Ymgynghoriadau Gwleidyddol:** Cawsom wahoddiad, fel y cafodd mudiadau eraill, i wneud cyflwyniadau i Bwyllgorau Senedd Westminster a'r Cynulliad a gwnaethpwyd datganiadau mewn pedwar maes fel a ganlyn, sy'n rhoi sylw arbennig i'r gwerthoedd Cristnogol a nodir uchod:

i. Cyflwyniad i Bwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin, 2 Medi 2016
ii. Cyflwyniad i'r Cyd-Bwyllgor Seneddol ar Hawliau Dynol am oblygiadau Brexit ar hawliau dynol, 29 Medi 2016 (Saesneg yn unig)
iii. Cyflwyniad i Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 24 Tachwedd 2016
iv. Ymchwiliad i hawliau dynol yng Nghymru: Cyflwyniad i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau gan Cytûn

Y mae testun cyflawn y cyflwyniadau hyn ar wefan Cytûn ar: http://www.cytun.org.uk/cymruewrop /index.html

5 **Cyfarfod â'r pleidiau gwleidyddol:** Credwyd fod cyfarfod â chynrychiolwyr y pleidiau a gynrychiolir yn y Cynulliad yn flaenoriaeth i'r Gweithgor. Cafwyd cyfarfodydd defnyddiol iawn yn ystod mis Mawrth a chredir fod cael perthynas agored ac adeiladol rhwng y Gweithgor a'r pleidiau gwleidyddol yn agwedd bwysig ar y gwaith. Maent yn rhoi cyfle i ddod yn fwy ymwybodol o flaenoriaethau'n gilydd a dechrau deall sut y gellir cynorthwyo'n gilydd wrth geisio ymateb i heriau Brexit yn y cyfnod nesaf.

6 **Blaenoriaethau'r cyfnod nesaf:** Yng nghyfarfod diweddaraf y Gweithgor cytunwyd mai'r blaenoriaethau dros y misoedd nesaf fydd parhau i sicrhau fod y llais Cristnogol yn cael ei glywed yn y fforwm cyhoeddus cenedlaethol yng Nghymru, paratoi deunydd i hyrwyddo dealltwriaeth o'r materion dan sylw ymhlith yr eglwysi yn genedlaethol a lleol a cheisio cynnal trafodaethau mewn grwpiau ffocws er mwyn magu dealltwriaeth ddyfnach o'r materion fydd yn wynebu Cymru yn y cyfnod nesaf a sut orau i ymateb iddynt.

7 Yn 1996 cyhoeddodd Cytûn y ddogfen, *Cymru: Cymdeithas Foesol*? Credir fod y broses y mae'r Gweithgor ynglŷn â hi yn awr ar ran yr eglwysi a'r enwadau yng Nghymru yn rhoi cyfle i wneud mewnbwn tebyg, mewnbwn pwysicach efallai, tuag at yr ymdrech genedlaethol a lleol fydd ei hangen yn ystod y cyfnod nesaf hwn i lunio cymdeithas Gymreig sy'n adlewyrchu'r gwerthoedd Cristnogol y mae'r eglwysi ac eraill yn eu trysori a'u meithrin.

Am wybodaeth bellach cysyllter â'r canlynol:

Alun Lenny: 01267 232577
alunlenny@hotmail.co.uk
Gethin Rhys: 02920 464378 / 07889858062
gethin@cytun.cymru
Noel A Davies: 01792 203693/07791 466371
noeldavies@aol.com

Cyhoeddwyd yr Adroddiad: 29 Mawrth 2017